# Cytuno ar ymyriadau i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chithau’n nodi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin domestig neu drais rhywiol. Fel rhan o’r safon hon, byddwch chi’n nodi ac yn cytuno ar ymyriadau.

Mae’r safon hon ar gyfer ymarferwyr sy’n cefnogi pobl sy’n cael profiad o gam-drin domestig, a all gynnwys achosion o drais rhywiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arsylwi plant a phobl ifanc er mwyn nodi dangosyddion straen a allai awgrymu camdriniaeth, gan gynnwys;
• newidiadau annisgwyl mewn ymddygiad
• defnyddio iaith amhriodol
• ymddygiad anaddas
2. nodi unrhyw anafiadau a gafodd plant a phobl ifanc, gan gynnwys anafiadau:
• sydd heb esboniad neu sydd ag esboniad gwael
• sy'n arwain at amheuaeth o gam-drin neu drais posibl
3. trafod dangosyddion straen ac anafiadau gyda phlant a phobl ifanc sy'n awgrymu cam-drin posibl, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
4. gyda phlant a phobl ifanc, archwilio'u hamgyffrediad a'u rhesymeg dros ddangosyddion straen ac anafiadau maen nhw'n eu harddangos
5. rhoi amgylchedd a chyfleoedd priodol a diogel i blant a phobl ifanc ddisgrifio'u hamgylchiadau, gan gynnwys defnyddio deunyddiau cymorth
6. cyfathrebu â phlant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n bodloni eu hanghenion a'u galluoedd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
7. ymateb i ddymuniadau plant a phobl ifanc am gyfrinachedd, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. nodi gwybodaeth am blant a phobl ifanc y mae angen ei rhannu gyda phobl eraill berthnasol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. cymryd camau i sicrhau bod cydweithiwr arall yn eich cwmni ac yn arsylwi arnoch mewn trafodaethau gyda phlant a phobl ifanc, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
10. cytuno ar ymyriadau gyda phlant a phobl ifanc i fodloni eu hanghenion a'u hamgylchiadau
11. atgyfeirio i weithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill pan fydd angen cymorth ac ymyriadau'r tu hwnt i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
12. asesu gwybodaeth sy'n dod i law gan ddefnyddio crebwyll proffesiynol i bennu lefelau'r risg i blant a phobl ifanc
13. pennu ffactorau sy'n gallu achosi newidiadau i ymddygiad plant a phobl ifanc, yn ogystal ag anafiadau, yn unol â chanllawiau sydd ar gael
14. nodi a threfnu ymholiadau ac asesiadau ychwanegol os bydd angen

15. cadw cofnodion am ymyriadau sy’n amddiffyn plant a phobl ifanc
16. gweithio gyda sefydliadau eraill i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl, yn unol â threfniadau partneriaeth
17. cynnal cyfrinachedd yn unol â gofynion deddfwriaethol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
5. ffynonellau cymorth sydd ar gael i chi fel ymarferwr a sut i gael at y rhain, gan gynnwys rhwydweithiau cymheiriaid a goruchwyliaeth glinigol
6. beth yw ystyr diogelu
7. ffyrdd gwahanol y gallai plant a phobl ifanc gael eu niweidio
8. arwyddion o gam-drin a'r dulliau y mae camdrinwyr yn eu defnyddio i ennill grym a rheolaeth
9. yr effaith ar bawb y mae cam-drin domestig neu drais rhywiol yn effeithio arnynt, gan gynnwys dioddefwyr, goroeswyr a phlant
10. sut gall dibynyddion gael eu defnyddio gan gamdrinwyr fel rhan o'u camdriniaeth
11. sut mae agweddau'n gysylltiedig â diwylliant, cymdeithas a rhywedd yn effeithio ar gam-drin domestig a thrais rhywiol
12. rôl asiantaethau cymorth allanol o ran darparu atgyfeiriadau a chymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
13. trefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu atgyfeiriadau i blant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr cam-drin domestig neu drais rhywiol
14. camsyniadau nodweddiadol a safbwyntiau ystrydebol am lefelau camdriniaeth a'i hachosion
15. dangosyddion cam-drin domestig a thrais rhywiol a sut gall y rhain gael eu mynegi, gan gynnwys trwy:
    - chwarae a gwaith celf
    - perthnasoedd â phlant ac oedolion eraill
    - natur gyfrin rhai dangosyddion
16. y camau sy'n angenrheidiol pan nodir fod camdriniaeth yn cael ei datgelu
17. mathau o wybodaeth a meysydd cymorth y mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu ceisio

18. ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
19. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig plant a phobl ifanc
20. pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod pam nad yw eu dymuniadau datganedig yn cael eu bodloni
21. dulliau o wirio a chadarnhau gwybodaeth
22. dulliau a thechnegau ar gyfer gwahaniaethu rhwng a nodi; tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol a:
• thystiolaeth o ffynonellau dibynadwy
• adroddiadau ail-law
• rhagfarn
23. pryd a sut i drafod pryderon am gamdriniaeth gyda rhieni a gofalwyr
24. ffactorau a all effeithio ar fagu plant a chynyddu risg camdriniaeth
25. sut i greu amgylchedd sy’n gwneud i blant a phobl ifanc deimlo’n gartrefol
26. sut i gymhwyso ymarfer sy’n ystyriol o drawma yn eich maes ymarfer
27. deall gwahanol ymatebion i drawma a’u heffaith
28. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, i fodloni anghenion yr unigolyn
29. pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau perthnasol eraill yng nghyd-destun diogelwch, iechyd a lles plant a phobl ifanc
30. egwyddorion sy’n rheoli pryd mae pobl ifanc yn cael eu hystyried yn ddigon aeddfed i roi cydsyniad gwybodus i rannu eu gwybodaeth gyda phartïon eraill
31. anghenion gwybodaeth asiantaethau, sefydliadau ac unigolion eraill y mae hawl ganddynt i’r wybodaeth, a phryd mae ei hangen arnynt
32. polisïau a gweithdrefnau’r sefydliad ar gyfer rhannu gwybodaeth
33. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gyda phlant a phobl ifanc a dulliau o wneud hynny
34. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i’w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
35. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff mewn ffyrdd gwahanol
36. pwysigrwydd cyfathrebu dieiriau
37. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o’u goresgyn
38. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau

39. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
40. sut i gymhwyso ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
41. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
42. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, i fodloni anghenion yr unigolyn
43. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun a'r effaith y gall eich gwerthoedd a'ch credoau eich hun ei chael wrth weithio ar unigolion
44. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
45. cyfyngiadau ar gyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i

ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**
Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ymarfer Ystyriol o Drawma**
Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso.

SFJBI401

Cytuno ar ymyriadau i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin domestig neu drais rhywiol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJBI401 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | rhywiol; cam-drin domestig; asesu; amlasiantaethol; partneriaeth; trefniadau; MAPPA; MASRAM; diogelu; amddiffyn |